

Adolygiad Dilynol o Theatrau Llawdriniaethau – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2159A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â'r materion a ganfuwyd yn yr adolygiad blaenorol, ond gellid gwneud gwelliannau pellach o ran defnyddio data ar effeithlonrwydd theatrau a safoni prosesau cyn llawdriniaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 5

Argymhellion 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynnydd Yn Erbyn yr Argymhellion 9

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae gwasanaethau theatrau llawdriniaethau'n rhan hanfodol o ofal ar gyfer cleifion. Mae rheoli theatrau'n effeithlon yn arwain at gost-effeithiolrwydd, mae o gymorth i gyrraedd targedau o ran amseroedd aros ac mae'n cyfrannu at ofal o ansawdd da ar gyfer cleifion.
- 2 Yn 2011-12, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o wasanaethau theatrau llawdriniaethau ledled Cymru. Yn 2014-15, fe wnaed gwaith dilynol ar draws byrddau iechyd i bwysu a mesur y cynnydd o ran rhoi ein hargymhellion archwilio gwreiddiol ar waith.
Roedd yr adolygiadau hynny'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd theatrau llawdriniaethau ac yn cynnwys agweddau ar y llwybr llawfeddygol ehangach gan gynnwys;
 - sut yr oedd cleifion a oedd yn aros am lawdriniaeth yn cael eu rhestru;
 - cysondeb trefniadau asesu cyn llawdriniaeth;
 - derbyniadau llawfeddygol a defnyddiau o theatrau; a hefyd; a'r
 - broses ansawdd gan gynnwys rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).
- 3 Gwybodaeth am sut y mae gwasanaethau'n perfformio. Rydym wedi cynnal adolygiad pellach i archwilio'r cynnydd a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadolygiadau blaenorol. Mae'r gwaith dilynol wedi cynnwys adolygiad o argymhellion a wnaed yn flaenorol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg mewn perthynas â gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, o ystyried bod gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer pobl Pen-y-bont ar Ogwr wedi trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd ar 1 Ebrill 2019.
- 4 Mae'r gwaith dilynol yr adroddir arno yma'n tynnu ar y gwaith canlynol:
 - adolygiad o ddata a dogfennaeth sy'n berthnasol;
 - hunanasesiad o'i gynnydd yn erbyn yr argymhellion gan y Bwrdd Iechyd; a
 - chyfweiliadau gyda staff i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.
- 5 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Mae **Atodiad 1** yn darparu sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol. Nid oeddem yn gallu cadarnhau'r dyddiadau targed gwreiddiol ar gyfer rhoi'r argymhellion ar waith felly rydym wedi darparu diweddariad ar y cynnydd ar hyn o bryd. Mae'r sylwebaeth yn adlewyrchu gwaith maes a wnaed cyn pandemig COVID-19¹; fodd bynnag, lle y bo'n bosibl rydym wedi ceisio diweddarau ein

¹ Ym mis Mawrth 2020, fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru atal yr holl waith archwilio perfformiad ar safleoedd, a oedd yn cynnwys clirio adroddiadau drafft, i alluogi cyrff y GIG i ganolbwyntio'u sylw ar ymateb i bandemig COVID-19.

canfyddiadau am gamau gweithredu sydd wedi digwydd ers gwneud ein gwaith maes.

Ein canfyddiadau

- 6 Mae **Arddangosyn 2** ac **Arddangosyn 3** yn crynhoi statws argymhellion archwilio blaenorol.

Arddangosyn 2: Statws o ran cynnydd gyda'r argymhellion a wnaed gennym yn 2014: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cyfanswm yr Argymhellion	Wedi'u rhoi ar waith	Ar y gweill	Wedi'u disodli
20	9	8	3

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

Arddangosyn 3: Statws o ran cynnydd gyda'r argymhellion a wnaed gennym yn 2015: Ardal Pen-y-bont ar Ogwr

Cyfanswm yr Argymhellion	Wedi'u rhoi ar waith	Ar y gweill	Wedi'u disodli
6	1	5	-

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

- 7 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â'r materion a ganfuwyd yn yr adolygiad blaenorol, ond gellid gwneud gwelliannau pellach o ran defnyddio data ar effeithlonrwydd theatrau a safoni prosesau cyn llawdriniaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.

- 8 Ers ein gwaith blaenorol, mae'r defnydd o restr wirio lawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd² yn y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'n sylweddol ac fe wnaed cynnydd o ran rhoi sesiynau briffio cyn rhestrau ac ar ôl rhestrau.
- 9 Mae'r modd y caiff sesiynau theatr a rhestrau eu cynllunio wedi gwella yn dilyn penodi rheolwyr amserlennu i roi cymorth i gynllunio rhestrau'n effeithiol. Mae'r aelodau hyn o staff wedi meithrin perthnasoedd gweithio clôs gyda staff llawfeddygol, ac mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd sy'n ceisio adnabod ac ymdrin ag unrhyw faterion gyda rhestrau a allai arwain at ganslo ac oedi.
- 10 Mae gwaith i fonitro profiad cleifion wedi cael ei gryfhau trwy ddefnyddio arolygon amser real. Mae COVID-19 wedi cael effaith ar raddfa'r gwaith hwn, ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio i gynnal y gweithgarwch hwn gymaint â phosibl.
- 11 Fodd bynnag, mae modelau asesu cyn llawdriniaeth yn dal i fod yn anghyson ar draws safleoedd ysbytai. Ac, er bod gwybodaeth am berfformiad theatrau llawdriniaethau ar gael, roedd diffyg ffocws a chraffu ar effeithlonrwydd, cynhyrchiant a defnydd ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac mae gwaith pellach yn yr arfaeth yn y maes hwn i gynyddu capasiti i'r eithaf fel rhan o adferiad gofal wedi'i gynllunio yn dilyn COVID-19. Mae cyfleoedd o hyd i gynnwys staff clinigol yn fwy eang yn y trafodaethau hyn.
- 12 Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae gwaith i'w wneud o hyd mewn perthynas â gwella theatrau. Mae mynediad at wybodaeth wedi gwella'n ddiweddar ond mae anghysonderau o hyd yn y systemau gwybodaeth theatrau y mae gan Ysbyty Tywysoges Cymru fynediad atynt. Mae angen gwelliannau pellach i sicrhau trosolwg ar effeithlonrwydd, cynhyrchiant a diogelwch theatrau, a bydd y model gweithredu newydd a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

Argymhellion

- 13 Wrth wneud y gwaith hwn, nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Caiff yr argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith eu nodi yn **Arddangosyn 4** ac **Arddangosyn 5**.

² Datblygwyd restr wirio lawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar ôl ymgynghori helaeth a'i nod yw lleihau gwallau a digwyddiadau andwyol a chynyddu cyfathrebu a gwaith tîm ym maes llawfeddygaeth.

Arddangosyn 4: argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

Pum Cam i Lawdriniaethau Mwy Diogel

A1c Dechrau adrodd ar gydymffurfiaeth gyda'r pum cam ochr yn ochr â metrigau effeithlonrwydd/cynhyrchiant i sicrhau adolygiad mwy cyfannol o berfformiad, ansawdd a diogelwch.

Prosesau Cyn Llawdriniaeth

A6a Cyflwyno prosiect i wella'r broses rheoli perfformiad asesiadau cyn-lawdriniaeth. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wybod mwy am ei heffeithiolrwydd a'i heffaith ar ganslo llawdriniaethau.

A6b Dadansoddi yn ôl arbenigedd/llawfeddyg, lle mae cyfraddau derbyn ar ddiwrnod llawdriniaeth (DOSA) yn isel. Gweithio gyda'r arbenigeddau/llawfeddygon hyn i ddeall/goresgyn y rhwystrau i gynyddu cyfraddau DOSA.

Llawdriniaeth Arhosiad Byr

A7a Enwebu'n ffurfiol lawfeddygon ar bob safle ysbyty i weithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer llawdriniaeth arhosiad byr.

A7b Dylai'r hyrwyddwyr arwain prosiect gyda'r nod o gynyddu cyfraddau llawdriniaeth arhosiad byr o fewn y 12 mis nesaf.

Hyrwyddo effeithlonrwydd drwy greu mwy o gydberchnogaeth

A8a Ailgyflwyno siartiau optimeiddio i roi ffocws o'r newydd ar effeithlonrwydd (heb aberthu ansawdd a diogelwch).

A8b Dylai un o'r cyfarwyddwyr clinigol arwain prosiect i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o ddangosfwrdd perfformiad theatrau. Dylai'r prosiect geisio deall a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n ymwneud â'r ffaith nad yw clinigwyr yn berchen ar y data effeithlonrwydd ar lefel clinigwyr.

A8c Rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy gyfarwyddwyr clinigol yn adolygu data theatr ac yn arsylwi perfformiad mewn gwahanol arbenigeddau. Cynnwys y wybodaeth hon yn y broses o gynllunio swyddi, ail-ddilysu ac arfarniadau.

Arddangosyn 5: argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith ar gyfer Ardal Pen-y-bont ar Ogwr

Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

Gwella Theatrau Llawdriniaethau

- A1 Ailgyflwyno rhaglen strwythuredig ar gyfer gwella theatrau, o bosibl fel ffrwd waith o fewn y Bwrdd Llwybr Llawfeddygol.

Rheoli Perfformiad ac Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Diogelwch

- A2 Datblygu dull o reoli perfformiad mewn theatrau sy'n sicrhau bod data o ansawdd da'n cael ei ddefnyddio'n eang i ysgogi gwelliant
- A3 Cyflwyno mecanwaith i sicrhau goruchwyliaeth weithredol fwy rheolaidd ar effeithlonrwydd, cynhyrchiant a diogelwch theatrau.

Rhestr Wirio a Sesiynau Briffio Sefydliad Iechyd y Byd (Pum Cam i Lawdriniaethau Mwy Diogel)

- A5 Tynnu ar arbenigedd tîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd i hyrwyddo manteision defnyddio rhestr wirio a sesiynau briffio Sefydliad Iechyd y Byd ymysg staff.

Cyfraddau Absenoldeb Oherwydd Salwch

- A6 Gwneud gwaith pellach i ddeall y cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch uchel mewn theatrau a rheoli gostyngiad ynddynt.

Atodiad 1

Cynnydd y bwrdd iechyd yn erbyn ein hargymhellion

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn argymhellion a ddeilliodd o'r Adolygiad Dilydol o Theatrau Llawdriniaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (2014)

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Pum Cam i Lawdriniaethau Mwy Diogel <p>Rhestr wirio ar gyfer diogelwch llawfeddygol, a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), yw pum cam i lawdriniaethau mwy diogel. Mae'n cynnwys sesiwn briffio, llofnodi i mewn, saib (timeout), llofnodi allan ac ôl-drafodaeth, a chaiff ei hyrwyddo gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) ar gyfer yr holl gleifion yng Nghymru a Lloegr sy'n cael triniaethau llawfeddygol.</p> <p>Yn 2014, canfuom arfer da yn null y Bwrdd Iechyd o roi anogaeth i ddefnyddio sesiynau briffio ar ddiogelwch a'r rhestr wirio diogelwch llawfeddygol. Ond roedd yn adrodd yn anghywir wrth Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth â rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd, ac roedd rhai anghysonderau hefyd yn y modd yr oedd y broses briffio cyn rhestrau'n cael ei chwblhau ac roedd ôl-drafodaethau ar ôl rhestr yn brin. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A1a Parhau â'r gwaith o gyflwyno'r rhestr wirio lawfeddygol newydd ac ailadrodd yr archwiliad cudd ar y ddau safle ymhen 12 mis.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod defnyddio rhestr wirio Sefydliad lechyd y Byd yn arfer da. Dynododd ein trafodaethau gyda staff a'n hadolygiad o hunanasesiad a gwybodaeth am berfformiad y Bwrdd lechyd fod cydymffurfiaeth â rhestr wirio Sefydliad lechyd y Byd wedi gwella'n sylweddol ers ein hadolygiad yn 2014, gyda chyfraddau cydymffurfio'n cyrraedd 89% ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.</p>
<p>A1b Gwneud penderfyniad ar bwysigrwydd sesiynau briffio ôl-restr. Os bydd y Bwrdd lechyd yn ystyried hyn yn bwysig, rhaid iddynt gael eu hyrwyddo, yn enwedig gan y cyfarwyddwyr clinigol a ddylai arwain drwy esiampl.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi sesiynau briffio cyn rhestrau ac ar ôl rhestrau ar waith, ac roedd staff yn teimlo bod y rhain yn ddefnyddiol. Roedd gwybodaeth am berfformiad a gafwyd gan Ysbyty Brenhinol Morgannwg (YBM) ar gyfer y cyfnod rhwng 28/10/2019 a 03/02/2020 yn dangos gwelliant yn y cyfraddau cydymffurfio.</p>
<p>A1c Dechrau adrodd ar gydymffurfiaeth gyda'r pum cam ochr yn ochr â metrigau effeithlonrwydd/cynhyrchiant i sicrhau adolygiad mwy cyfannol o berfformiad, ansawdd a diogelwch.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Ar adeg ein gwaith maes canfuom fod trafodaeth ynglŷn â'r pum cam i lawdriniaethau mwy diogel yng nghyfarfodydd adrannau ac arweinwyr timau theatrau. Fodd bynnag, gellid bod wedi gwneud defnydd gwell o'r wybodaeth hon yn y Cyfarfod Busnes Llywodraethu Integredig Cyfarwyddiaethol neu'r Cyfarfod Busnes Clinigol. Ers ein hadolygiad mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi fframwaith gweithredu newydd ar waith gyda thair ardal leol, y mae gan bob un ohonynt Grŵp Gwasanaeth Clinigol ar gyfer llawfeddygaeth. Mae hyn wedi cynyddu capasiti o fewn y Bwrdd lechyd. Mae COVID-19 yn naturiol wedi effeithio ar gyflymder y broses o roi hyn ar waith, yn ogystal â</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>chael effaith ar drwygyrch dewisol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i fonitro cydymffurfiaeth â'r pum cam i lawdriniaethau mwy diogel i sicrhau golwg fwy cyfannol ar berfformiad a bydd yn sefydlu hyn yn y trefniadau newydd a chan hynny mae'n datblygu trefniadau monitro trwy'r Grwpiau Gwasanaeth Clinigol sydd newydd gael eu sefydlu a chyfarfodydd y grŵp cynllunio Gwasanaethau. Mae angen gwaith pellach yn y maes hwn er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.</p>
<p>Profiad Cleifion Canfu ein gwaith yn 2014 fod Cyfarfodydd Busnes Clinigol a'r Grŵp Gwella Ansawdd Theatrau yn darparu mwy o ffocws ar ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am brofiad cleifion llawfeddygol yn cael ei mesur yn rheolaidd, nid oedd y broses ar gyfer aiddilysu meddygon yn ddigon annibynnol ar y meddyg a oedd yn ceisio aiddilysiad ac roedd angen i'r amryw ffynonellau gwybodaeth am ansawdd gael eu dwyn ynghyd a'u hystyried yn gyfannol. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>A2a Monitro profiad cleifion llawfeddygol bob chwe mis o leiaf.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei drefniadau ar gyfer monitro profiad cleifion ac mae bellach wedi cyflwyno dull cyson o ddefnyddio arolygon amser real ar draws y Bwrdd Iechyd. Caiff canlyniadau'r rhain eu trafod yng nghyfarfodydd y tri Grŵp Ardal Integredig. Mae COVID-19 wedi effeithio ar faint y gwaith arolygu ac mewn amser real y gellir ei wneud.</p>
<p>A2b Archwilio'r broses o ddilysu meddygon i asesu a yw arolygon cleifion yn ddigon</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Mae prosesau ar gyfer aiddilysu meddygon wedi newid ers 2014. Ar hyn o bryd ceir cytundeb Cymru Gyfan ar gyfer adborth aml-ffynhonnell (cleifion a chydweithwyr) 360 gyda sefydliad allanol. Ar gyfer adborth Cleifion, bydd y sefydliad allanol yn postio arolygon at y Meddyg i'w dosbarthu ac maent yn cael eu casglu trwy drydydd parti</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
annibynnol ar y meddyg dan sylw.		(Clerc Ward, Nyrs, Ysgrifennydd a.y.b.), sy'n sicrhau bod y claf yn gallu darparu adborth yn ddiennw a bod meddygon yn ddigon annibynnol ar y broses. Deallwn fod contract Cymru gyfan i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2020; fodd bynnag, bydd system arall a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cael ei chyflwyno'n raddol wrth i'r contract cyfredol ddod i ben.
<p>Dadansoddiad o ddigwyddiadau</p> <p>Canfu ein gwaith yn 2014 bod anogaeth i gofnodi gwallau a bod staff yn gadarnhaol ynglŷn â phrosesau adrodd. Roedd data a themâu digwyddiadau'n cael eu hystyried yn wythnosol gan reolwyr theatrau mewn amryw gyfarfodydd llywodraethu, ond roedd y gwersi a oedd yn cael eu dysgu o ddigwyddiadau'n gyfyngedig i staff islaw gradd band 7 ac nid oedd mecanweithiau ar gyfer darparu adborth ar gyfer staff wedi datblygu ddigon. Roedd cyfle hefyd i ddefnyddio ystadegau mwy soffistigedig i ddadansoddi tueddiadau mewn digwyddiadau mewn theatrau. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>A3a Defnyddio cymorth ac offer gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella dadansoddiad o dueddiadau o ddigwyddiadau theatr a defnyddio siartiau Rheoli Proses Ystadegol.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Nid yw offer Rheoli Proses Ystadegol yn cael eu cyhoeddi gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru mwyach, ond mae mynediad ar gael trwy Wefan Gwella'r GIG. Fodd bynnag, ers ein hadolygiad yn 2014 mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Dangosfwrdd digwyddiadau mewn theatrau sy'n darparu gwybodaeth mewn amser real am ddigwyddiadau sy'n gadarnhaol ac yn gynhwysfawr. Mae'r Uwch Nyrs ar gyfer Theatrau'n defnyddio'r wybodaeth i drafod digwyddiadau gyda staff.</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A3b Dadansoddi'r rhesymau dros y cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau yn ystod 2012.</p>	<p>Wedi'i ddisodli</p>	<p>Nid yw'r argymhelliad hwn yn gymwys mwyach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith i adolygu digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd trwy eu system adrodd Datix.</p>
<p>A3c Pennu amcan o gynyddu adroddiadau am ddigwyddiadau a monitro'r gymhareb o ddigwyddiadau niwed-bach i'r holl ddigwyddiadau o leiaf bob chwe mis.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Nid oes amcan penodol wedi cael ei bennu gan y Bwrdd Iechyd, ond mae digwyddiadau'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd adrannau ac arweinwyr timau, lle mae'r Uwch Nyrs ar gyfer theatrau'n rhannu allbrint o'r Dangosfwrdd digwyddiadau mewn theatrau gyda staff. Ceir tystiolaeth i awgrymu bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau unigol ar lefel adrannol, gyda rhai newidiadau neu welliannau'n cael eu gwneud o ganlyniad. Er enghraifft, datblygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs), Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Ymyrrol (LocSSIPs), a mwy o ffocws ar gwblhau rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd. Yn dilyn cyflwyno'r model gweithredu newydd ym mis Ebrill 2020 mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar adolygu digwyddiadau, ac mae craffu ar adroddiadau'n digwydd trwy strwythurau'r Grwpiau Ardal Integredig newydd.</p>
<p>Cynllunio Rhestrau Canfu ein gwaith yn 2014 fod gwaith cynllunio rhestrau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (YBM) wedi newid i :</p>		
<p>A4a Adolygu'r materion effeithiolrwydd a diogelwch sy'n gysylltiedig â chynllunio</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Mae Theatrau llawdriniaethau wedi cyflwyno'r system 6-4-2 yn YBM ac YTS sy'n darparu proses gyson a 'rhagolwg' ar gyfer cynllunio sesiynau a rhestrau theatrau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi dau Reolwr Amserlennu sy'n arwain ac yn</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>rhestrau, yn enwedig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Newid y broses i sicrhau bod staff theatr yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o sicrhau ansawdd rhestrau.</p>		<p>cydgysylltu'r system 6-4-2, yn cynorthwyo gyda materion gweithredol beunyddiol, yn adnabod ac yn atal unrhyw faterion cyn llawdriniaeth cleifion ac yn gweithio ar y cyd gyda staff gweithredol allweddol. Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno sgrymiau theatr i sicrhau bod y system 6-4-2 yn gweithredu'n effeithiol. Cynhelir y sgrymiau ddwywaith y dydd ac fe'u mynychir gan dîm amlddisgyblaethol. Y diben yw adolygu'r cynnydd o ran y rhestrau llawfeddygol ac adnabod a datrys unrhyw faterion a allai arwain at ganslo achosion neu oedi gydag achosion. Mae gwerthusiad mewnol o sgrymiau theatr wedi dynodi gostyngiad mewn cansladau ac mae'r gwelliannau o ran cyfathrebu wedi lleihau'r arfer o roi gwaith ar gontract allanol, wedi gwella diogelwch a phrofiad cleifion, cynhyrchiant theatrau a pherthnasoedd rhwng timau.</p> <p>Fodd bynnag, mae COVID-19 wedi effeithio ar gynllunio rhestrau, gyda'r gostyngiad mewn gweithgarwch dewisol a'r ffocws ar ofal brys a gofal canser. Fe wnaed gwaith i adolygu pob claf ac asesu ei angen clinigol. Fe wnaed hyn gydag ymgysylltu clinigol sy'n dangos cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn.</p>

Gwyliau Blynyddol

Canfu ein gwaith yn 2014 mai dim ond 14 allan o 45 o feddygon ymgynghorol oedd yn gyson yn cydymffurfio â'r rheol ynglŷn â hysbysu chwe wythnos ymlaen llaw cyn cymryd gwyliau gyda rhai llawdriniaethau'n cael eu canslo oherwydd gwyliau llawfeddygon. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A5a Gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheol gwyliau chwe wythnos ar gyfer meddygon ymgynghorol. Monitro cydymffurfiaeth bob chwe mis o leiaf.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Mae'n dal yn ofynnol i feddygon ymgynghorol ac anesthetyddion roi chwe wythnos o rybudd ar gyfer gwyliau blynyddol. Fodd bynnag, canfu ein cyfweiliadau gyda staff bod rhai achosion lle gofynnir am wyliau blynyddol o fewn y cyfnod hwn. Mae awdurdodiad yn ôl disgrisiwn yr adran, er enghraifft lle nad yw'r gwyliau blynyddol yn peryglu gwasanaethau. Mae ein dadansoddiad o ddata canslo'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019 yn dynodi bod 39 o gyfanswm o 4624 o llawdriniaethau a ganslwyd ar draws YBM ac YTS wedi cael eu canslo am bod y llawfeddyg ar wyliau blynyddol. Ni chanfu ein gwaith unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Bwrdd Iechyd yn monitro cydymffurfiaeth â'r rheol ynglŷn â rhoi 6 wythnos o rybudd yn rheolaidd i ddeall ei heffaith ar gansladau; fodd bynnag mae cansladau oherwydd gwyliau blynyddol yn isel ar 0.84%.</p>

Prosesau Cyn Llawdriniaeth

Defnyddir clinigau asesu cyn llawdriniaeth (POAC) i asesu claf cyn llawdriniaeth, gyda'r nod o adnabod unrhyw gyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, sgrinio ar gyfer haint (megis MRSA), pennu'r risg glinigol a sicrhau bod claf yn cael llawdriniaeth mewn cyfleuster addas.

Yn 2014, canfuom fod asesu cyn llawdriniaeth wedi cael ei gydnabod fel mater a oedd angen sylw gan y Bwrdd Iechyd a daethpwyd â'r gwasanaeth i mewn i'r Gyfarwyddiaeth Anestheteg, Gofal Critigol a Theatrau. Roedd barn gymysg ymhlith staff ynglŷn â'i effeithiolrwydd hefyd. Fe wnaed peth cynnydd o ran safoni'r gwasanaeth ar draws safleoedd ysbytai, ond nid oedd y gwaith hwnnw wedi cael ei gwblhau ar adeg yr adolygiad. Cyflwynwyd holiadur sgrinio hefyd ac roedd anesthetyddion yn cael eu cynnwys yn fwy yn y broses asesu cyn llawdriniaeth.

Canfuom fod cyfraddau derbyn ar ddiwrnod llawdriniaeth yn y Bwrdd Iechyd yn is nag yn unrhyw le arall yng Nghymru a bod cyfle i wella'r perfformiad hwn. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno lolfeydd derbyn i wella'u cyfraddau derbyn ar ddiwrnod llawdriniaeth; fodd bynnag, roedd materion o ran profiad cleifion mewn perthynas ag urddas. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>R6a Cyflwyno prosiect i wella'r broses rheoli perfformiad asesiadau cyn-llawdriniaeth. Mae angen i'r Bwrdd lechyd wybod mwy am ei heffeithiolrwydd a'i heffaith ar ganslo llawdriniaethau.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Roedd staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth asesu cyn llawdriniaeth a'i effaith ar leihau nifer y cansladau yn YBM ac YTS. Bu rhai prosiectau safle-benodol i wella prosesau asesu cyn llawdriniaeth. Er enghraifft, cwblhau asesiadau cyn llawdriniaeth mewn llawfeddygaeth ddydd yn YTS. Fodd bynnag, canfuom nad yw'r gwasanaeth ar gael i bob arbenigedd. Er enghraifft, dim ond yn ddiweddar y mae wedi cael ei gyflwyno ar gyfer Wroleg. Awgrymodd ein trafodaethau gyda staff fod modelau asesu cyn llawdriniaeth anghyson yn YBM ac YTS a chyfyngedig oedd y dystiolaeth i awgrymu bod trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth hwn. Effeithiwyd ar gynnydd pellach gyda hyn gan COVID-19, ac mae'r Bwrdd lechyd yn ymwybodol y bydd angen i waith yn y dyfodol ganolbwyntio ar wella'r drefn asesu cyn llawdriniaeth fel rhan o'r rhaglen adfer gofal wedi'i gynllunio yn dilyn COVID-19.</p>
<p>R6b Dadansoddi yn ôl arbenigedd/llawfeddyg, lle mae cyfraddau derbyn ar ddiwrnod llawdriniaeth (DOSA) yn isel. Gweithio gyda'r arbenigeddau/llawfeddygon hyn i ddeall/goresgyn y rhwystrau i gynyddu cyfraddau DOSA.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Caiff cyfraddau DOSA eu monitro yn YTS ac YBM. Cyfyngedig oedd y dystiolaeth i ddynodi a yw'r Bwrdd lechyd yn gweithio gyda llawfeddygon a/neu arbenigeddau i sicrhau gwelliannau.</p> <p>Fel rhan o'r cynlluniau adfer ar ôl COVID-19 mae gwaith pellach yn yr arfaeth yn y maes hwn i gynyddu capasiti i'r eithaf fel rhan o adferiad gofal wedi'i gynllunio. Bydd gwaith i graffu ar wybodaeth yn cael ei wneud mewn Grwpiau Ardal Integredig.</p>
<p>R6c Rhoi sylw i'r materion yn ymwneud â phrofiad cleifion ar</p>	<p>Wedi'i Ddisodli</p>	<p>Cafodd yr uned SEAL ei chau'n barhaol yn 2019 felly nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>unedau SEAL a ddatgelwyd gan yr arolwg cleifion diweddar ac archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru.</p>		
<p>Llawdriniaeth Arhosiad Byr Mae llawdriniaeth arhosiad byr yn lleihau hyd arhosiad claf yn yr ysbyty a'r risg o heintiau a ddelir yn yr ysbyty, sy'n cynyddu bodlonrwydd cleifion ac yn golygu defnydd mwy effeithlon o welyau ysbytai. Yn 2014, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau gweithredu i hybu llawdriniaeth arhosiad byr ac er bod y gyfradd achosion dydd wedi gwella yn ystod 2013, roedd yn dal i fod yn gymharol isel. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>R7a Enwebu'n ffurfiol lawfeddygon ar bob safle ysbyty i weithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer llawdriniaeth arhosiad byr.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd hyrwyddwr enwebedig o blith meddygon ymgynghorol yn YTS ar gyfer llawdriniaeth arhosiad byr; fodd bynnag, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cadarnhau a oes trefniadau tebyg yn YBM. Wrth i'r Bwrdd Iechyd symud ymlaen â'i adferiad gofal wedi'i gynllunio mae cyfle i sicrhau bod hyrwyddwyr ar bob safle i wella cyfraddau llawdriniaeth arhosiad byr. Fodd bynnag, nodir bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n rhagweithiol i ganfod lle gellid gwneud gwelliannau.</p>
<p>R7b Dylai'r hyrwyddwyr arwain prosiect gyda'r nod o gynyddu cyfraddau llawdriniaeth</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Mae'r hyrwyddwr ar gyfer llawdriniaeth arhosiad byr yn YTS wedi cwblhau peth gwaith archwilio/gwella safle-benodol a oedd yn canolbwyntio ar dderbyniadau heb eu cynllunio yn dilyn llawdriniaeth ddydd wedi'i chynllunio, gan wella colesystemectomiau</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>arhosiad byr o fewn y 12 mis nesaf.</p>		<p>laparosgopig a gyflawnir fel achosion dydd a digonolrwydd analgesia ar ôl llawdriniaeth ddydd. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddynodi a yw cyfraddau llawdriniaeth arhosiad byr yn cael eu monitro'n ffurfiol ar draws safleoedd ysbytai a chyfyngedig yw'r dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw brosiectau wedi cael eu cwblhau ar draws safleoedd ysbytai i gynyddu cyfraddau llawdriniaeth arhosiad byr.</p> <p>Effeithiwyd yn sylweddol ar waith dewisol wedi'i gynllunio o ganlyniad i COVID-19, a bydd cyfleoedd i gynyddu llawdriniaeth arhosiad byr i'r eithaf yn cael eu harchwilio fel rhan o gynllunio adferiad ar ôl COVID-19.</p>
<p>Hyrwyddo effeithlonrwydd drwy greu mwy o gydberchnogaeth</p> <p>Canfu ein gwaith yn 2014, er bod rhai camau gweithredu cadarnhaol wedi bod i wella trefniadau rheoli perfformiad, nad oedd cyfarwyddwyr clinigol yn glir a oedd data a gwybodaeth am theatrau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i ysgogi gwelliant. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>R8a Ailgyflwyno siartiau optimeiddio i roi ffocws o'r newydd ar effeithlonrwydd (heb aberthu ansawdd a diogelwch).</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio system Qlik sense i goladu a monitro perfformiad theatrau llawdriniaethau gyda data ar gael ynghylch y cansladau dydd, defnydd yn ystod sesiynau, cyfleoedd a gollwyd, sesiynau gwag nad ydynt yn gyfnodau braenaru, amser wedi'i gynllunio nas defnyddiwyd a chost amser wedi'i gynllunio nas</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>defnyddiwyd. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ffocws ar gynhyrchiant llawfeddygol.</p> <p>Mae ein dadansoddiad o dueddiadau perfformiad rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Rhagfyr 2019 yn dynodi bod perfformiad theatrau llawdriniaethau'n gwella, ond y gellir gwneud mwy o waith i sicrhau gwelliannau pellach mewn perthynas â chansladau ar y dydd, defnydd yn ystod sesiynau, sesiynau gwag nad ydynt yn gyfnodau braenaru ac amser wedi'i gynllunio nas defnyddiwyd.</p> <p>Mae ein trafodaethau gyda staff yn awgrymu bod diffyg ffocws ar effeithlonrwydd theatrau llawdriniaethau, er bod yr wybodaeth am berfformiad ar gael. Adlewyrchwyd y farn hon yn ystod ein hymweliad â'r adrannau theatrau llawdriniaethau yn YBM ac YTS a ddatgelodd nad yw gwybodaeth am achosion o ddechrau'n hwyr, rhedeg dros amser, cansladau a rhesymau dros y rhain yn cael eu cofnodi ar fyrddau gwella ansawdd / siartiau optimeiddio theatrau. Dywedwyd wrthym nad yw gwybodaeth am effeithlonrwydd wastad yn cael ei chofnodi os na ystyrir ei fod yn fater o bwys.</p> <p>Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar drwygyrch a gweithgarwch theatrau. Fel rhan o gynllunio ar gyfer adferiad mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod effeithlonrwydd a chapasiti'n cael eu monitro'n effeithiol. Mae offer yn eu lle, ac mae'r Strwythurau Ardal Integredig newydd yn ogystal â'r rheolwyr cyffredinol a Grwpiau Gwasanaeth Clinigol llawfeddygaeth newydd yn bwriadu ysgogi gwelliannau yn y maes hwn.</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>R8b Dylai un o'r cyfarwyddwyr clinigol arwain prosiect i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o ddangosfwrdd perfformiad theatrau. Dylai'r prosiect geisio deall a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n ymwneud â'r ffaith nad yw clinigwyr yn berchen ar y data effeithlonrwydd ar lefel clinigwyr.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Mae ein trafodaethau gyda staff yn dynodi y gall clinigwyr fod yn cael eu hysbysu ynghylch perfformiad effeithlonrwydd theatrau ar lafar, ond nid ydynt yn cyrchu'r dangosfwrdd perfformiad theatrau eu hunain.</p> <p>Yn dilyn cyflwyno'r model gweithredu newydd ar draws y Bwrdd Iechyd bu cynnydd mewn uwch arweinwyr clinigol mewn Grwpiau Ardal Integredig a hefyd yn y meysydd llawfeddygol trwy reolwyr y grwpiau gwasanaeth clinigol newydd. Cryfhawyd trefniadau ymhellach trwy benodi'r cyfarwyddwyr clinigol ar gyfer dau o'r tri grŵp gwasanaeth clinigol llawfeddygol.</p> <p>Effeithiwyd ar waith ar y maes hwn gan COVID-19; fodd bynnag, dylai'r strwythurau fod o gymorth i roi'r argymhelliad hwn ar waith.</p>
<p>A8c Rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy gyfarwyddwyr clinigol yn adolygu data theatr ac yn arsylwi perfformiad mewn gwahanol arbenigeddau. Cynnwys y wybodaeth hon yn y broses o gynllunio swyddi, ail-ddilysu ac arfarniadau.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Canfu ein trafodaethau gyda staff fod y fforwm Arweinwyr Clinigol misol yn darparu cyfleoedd i rannu gwersi, dadansoddi data theatrau a pherfformiad gwahanol arbenigeddau, ond ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Anestheteg, Gofal Critigol a Theatrau newydd gael ei benodi a chan hynny nid oedd wedi mynychu cyfarfod. Ni ddarparwyd unrhyw gofnodion na phapurau ar ein cyfer yn ystod y gwaith maes archwilio ychwaith, felly nid oeddem yn gallu gwirio'r datganiad hwn. Mae COVID-19 wedi effeithio ar gynnydd pellach yn erbyn yr argymhelliad hwn, a gobeithir y bydd y trefniadau a'r model gweithredu newydd yn ategu'r broses hon.</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>R8d Rhoi gwybod i staff y theatr drwy roi cyhoeddusrwydd i gofnodion cyfarfodydd Band 7 a chrynhoi'r materion allweddol yn y poster/taflenni neu mewn negeseuon e-bost.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Mae hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn dynodi bod gwybodaeth am effeithlonrwydd theatrau'n cael ei rhannu gyda staff mewn cyfarfodydd adrannau ac arweinwyr timau deufisol.</p>
<p>Rôl Rheoli Gwelyau Canfu ein gwaith yn 2014 fod pwysau gofal heb ei drefnu wedi ysgafnhau, yn rhannol oherwydd dull mwy rhagweithiol o reoli gwelyau gan yr uwch nyrsys theatr. Serch hynny, roedd risg bod eu rôl rheoli gwelyau'n golygu eu bod yn treulio llai o amser mewn theatrau llawdriniaethau. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>A9a Ymhen chwe mis, asesu a yw swyddogaeth rheoli gwelyau uwch nyrsys theatr yn cael effaith negyddol ar eu rôl mewn theatrau.</p>	<p>Wedi'i ddisodli</p>	<p>Yn sgîl y model gweithredu newydd nid oes angen yr argymhelliad hwn mwyach</p>

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn argymhellion a ddeilliodd o'r Adolygiad Dilydol o Theatrau Llawdriniaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (2015))

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Gwella Theatrau Llawdriniaethau Yn 2014, canfuom fod y rhaglen waith theatrau a'r bwrdd theatrau wedi cael eu dirwyn i ben, ond bod y bwrdd llwybr llawfeddygol wedi sicrhau rhai gwelliannau ehangach. Fe argymhellom ni y dylai Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd):		
A1 Ailgyflwyno rhaglen strwythuredig ar gyfer gwella theatrau, o bosibl fel ffrwd waith o fewn y Bwrdd Llwybr Llawfeddygol.	Ar y Gweill	<p>Ers trosglwyddo Ysbyty Tywysoges Cymru o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ni fu unrhyw waith i ailgyflwyno rhaglen strwythuredig ar gyfer gwella theatrau.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno model gweithredu newydd yn ddiweddar y disgwylir iddo helpu i ategu'r gwaith hwn. Mae COVID-19 wedi effeithio ar welliannau pellach ar yr adeg hon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno y bydd angen bod Gwella Theatrau yn cael sylw cryf mewn cynlluniau adfer ar ôl COVID-19 wrth i'r Bwrdd Iechyd geisio gwella trwygyrch gofal wedi'i gynllunio yn dilyn effaith COVID-19.</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>Rheoli Perfformiad ac Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Diogelwch</p> <p>Yn 2015, canfuom fod cam gweithredu ar y gweill i gryfhau trefniadau monitro perfformiad, ond nad oedd y Bwrdd Iechyd yn ysgogi gwelliant trwy ddefnyddio data o ansawdd da. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>A2 Datblygu dull o reoli perfformiad mewn theatrau sy'n sicrhau bod data o ansawdd da'n cael ei ddefnyddio'n eang i ysgogi gwelliant.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Ceir trefniadau gwahanol i fonitro effeithlonrwydd theatrau llawdriniaethau yn ysbyty Tywysoges Cymru o'i gymharu ag adrannau theatrau llawdriniaethau safleoedd ysbytai eraill y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu adroddiad misol ar ddefnyddio theatrau ar gyfer ysbyty Tywysoges Cymru a gynhyrchir i'w rannu ymhlith staff theatrau llawdriniaethau. Canfu ein hadolygiad o'r adroddiad ei fod yn cynnwys gwybodaeth am ddefnydd sesiynau ac achosion o ddechrau'n hwyr / gorffen yn gynnar. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r wybodaeth sydd ar gael i adrannau theatrau llawdriniaethau yn YBM ac YTS sy'n fwy mynych ac sydd â ffocws ar fertigau perfformiad gwahanol.</p> <p>Er y bu gwelliannau diweddar mewn mynediad at y system QlikSense. Gall Ysbyty Tywysoges Cymru gynhyrchu data arall ar theatrau'n fewnol i ateb ymholiadau penodol, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod agweddau eraill ar berfformiad theatrau'n cael eu monitro ac nid oedd unrhyw gynlluniau eto i uno systemau.</p>
<p>A3 Cyflwyno mecanwaith i sicrhau goruchwyliaeth weithredol fwy rheolaidd ar effeithlonrwydd,</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Canfu ein cyfweiliadau gyda staff nad oes unrhyw gyfarfodydd i drafod perfformiad theatrau llawdriniaethau. Canfu ein hadolygiad o gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion, yn ogystal â chyfarfodydd adrannol theatrau llawdriniaethau, dystiolaeth</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
cynhyrchiant a diogelwch theatrau.		<p>gyfyngedig o drafodaeth neu o gymryd unrhyw gamau gweithredu i fynd i'r afael ag agweddau ar berfformiad. Yn flaenorol, roedd y grŵp defnyddwyr theatrau'n monitro perfformiad theatrau, ond cafodd hwn ei ddirwyn i ben oherwydd presenoldeb gwael gan lawfeddygon. Mae Dangosfwrdd Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd a gyflwynir ar lefel pwyllgorau a'r bwrdd yn cynnwys gwybodaeth am effeithlonrwydd theatrau, ond mae hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gansladau ym mhob un o'i dri safle ysbyty ac nid yw'n darparu darlun cyflawn o berfformiad theatrau llawdriniaethau.</p> <p>Dylai cyflwyno'r Grwpiau Ardal Integredig newydd a'r fframwaith llywodraethu ansawdd newydd y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2020 osod y strwythur yn ei le i wella'r cyfle i roi mwy o ffocws ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant theatrau. Bydd hyn ynghyd â sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn symud tuag at adferiad yn dilyn COVID-19 ar gyfer eu llwyth gwaith gofal wedi'i gynllunio hefyd yn ysgogi sgwrsiau yn y maes hwn.</p>

Rôl Cyfarwyddwr Clinigol

Yn 2015, canfuom mai penodiad interim oedd y Cyfarwyddwr Clinigol newydd ar gyfer Gwasanaethau Llawfeddygol (a oedd yn gyfrifol am theatrau) oherwydd proses a oedd yn mynd rhagddi i ailstrwythuro swyddi rheolwyr, felly roedd risg o newid pellach ac o darfu ar arweinyddiaeth ar theatrau. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A4 Adolygu rôl y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer theatrau i sicrhau ei fod wedi'i rymuso i ddatrys problemau ble bynnag y maent yn codi yn y llwybr.</p>	<p>Wedi'i Roi ar Waith</p>	<p>Yn dilyn uno'r Byrddau Iechyd yn 2019 daeth Theatrau Llawdriniaethau'n gyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Anestheteg, Gofal Critigol a Theatrau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2020 cryfhawyd hyn ymhellach gan benodiadau newydd i gryfhau capasiti arweinyddiaeth glinigol. Mae'r strwythur Grwpiau Ardal Integredig newydd wedi arwain at benodi rheolwr cyffredinol i safle Tywysoges Cymru yn ogystal â Grŵp Gwasanaeth Clinigol Llawfeddygaeth sydd wedi cynyddu capasiti rheolwyr.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r rolau cyfarwyddwyr clinigol ac ar hyn o bryd mae dau yn eu lle. Mae'r rhain wedi bod yn eu swyddi ers 2016. Ar adeg ein hadolygiad roedd penodiadau o'r newydd yn cael eu gwneud i'r rolau hyn fel rhan o broses y model gweithredu newydd.</p>
<p>Rhestr Wirio a Sesiynau Briffio Sefydliad Iechyd y Byd (Pum Cam i Lawdriniaethau Mwy Diogel)</p> <p>Yn 2015, fe wnaethom amlygu methiannau niferus o ran cwblhau rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd ac nid oedd sesiynau briffio timau'n cael eu prif ffrydio yn yr holl theatrau. Fe argymhellom ni y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>A5 Tynnu ar arbenigedd tîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd i hyrwyddo manteision defnyddio rhestr wirio a sesiynau briffio</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr adran theatrau llawdriniaethau wedi tynnu ar arbenigedd y tîm cyfathrebu i hyrwyddo manteision defnyddio rhestr wirio a sesiynau briffio Sefydliad Iechyd y Byd ymhlith staff. Fodd bynnag, canfu trafodaethau gyda staff yn Ysbyty Tywysoges Cymru fel rhan o'n gwaith yn 2020 fod</p>

Argymhelliad	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Sefydliad Iechyd y Byd ymysg staff.		<p>cydymffurfiaeth â rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd wedi gwella a bod sesiynau briffio cyn rhestrau'n cael eu cwblhau'n rheolaidd.</p> <p>Gallai'r modd y cydymffurfir â sesiynau briffio ar ôl rhestrau gael ei wella ymhellach; fodd bynnag, mae'r tîm yn hyderus, lle bu digwyddiad andwyol, bod sesiwn briffio ar ôl y rhestr yn cael ei chwblhau ac maent yn ymrwymedig i barhau i wella'r sylw yn y maes hwn a gwella'r gwersi a ddysgir.</p>
<p>Cyfraddau Absenoldeb Oherwydd Salwch</p> <p>Yn 2015, canfuom fod salwch ymhlith staff wedi cynyddu mewn 3 o'r 4 safle theatr ar draws y Bwrdd Iechyd ac wedi mynd y tu hwnt i 10% ar rai safleoedd. Fe argymhellom y dylai'r Bwrdd Iechyd:</p>		
<p>A6 Gwneud gwaith pellach i ddeall y cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch uchel mewn theatrau a rheoli gostyngiad ynddynt.</p>	<p>Ar y Gweill</p>	<p>Mae lefelau salwch yn dal i achosi pryder. Fodd bynnag, mae'r timau lleol yn ymwybodol ac yn monitro'r sefyllfa hon yn rheolaidd. Mae COVID-19 yn cael effaith ar y lefel hyn ar hyn o bryd am bod staff yn hunanynysu ac yn gwarchod, yn ogystal â'r ffaith bod swyddi gwag i'w cael.</p> <p>Gyda chymorth partneriaid busnes y gweithlu lleol mae gwaith yn mynd rhagddo i ostwng lefelau salwch. Cawsom ein hysbysu bod hwn yn gymysgedd o salwch byrdymor a hirdymor a oedd yn cael ei reoli yn unol â Pholisi Absenoldeb Oherwydd Salwch y Bwrdd Iechyd. Bydd angen ffocws parhaus yn y maes hwn.</p>



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.